

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	6
Canfyddiadau archwilio cyfrifon	8
Canfyddiadau archwilio perfformiad	12
Ansawdd archwilio	15
Rhagor o wybodaeth	16

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ynghylch a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a pha un a ddefnyddiwyd gwariant ac incwm at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eich llywodraethu.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi ymgymryd â'm gwaith asesu strwythuredig blynyddol ac wedi adolygu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, trawsnewid digidol, a gwasanaethau gofal llygaid. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â safonau [Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf \(INTOSAI\)](#).

Ar adeg cyhoeddi'r crynodeb hwn, roedd y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal wedi'i gynllunio a chanser a Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng o dan [drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru](#).

Mae'r canfyddiadau archwilio manwl ar gyfer pob un o'm hadolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar [wefan Archwilio Cymru](#) ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Bwrdd. Yna byddaf yn trefnu bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Archwilio Cymru](#).

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i staff y Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliadau.

Cipolwg ar eich archwiliad



Derbyniais y cyfrifon drafft ar 2 Mai yn unol â'r terfyn amser statudol. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn foddhaol.



Rhoddais farn gywir a theg ddiamod ar y cyfrifon cyn y terfyn amser statudol o 30 Mehefin 2025, a barn amodol ar reoleidd-dra. Rhoddais hefyd adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon. Roedd camddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Roedd materion arwyddocaol eraill i'w hadrodd hefyd, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer penodiadau uwchswyddogion ac anghysondebau wrth gofnodi a chyhoeddi datganiadau o fuddiant.



Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, a bod gwelliannau yn cael eu gwneud i drefniadau llywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau arweinyddiaeth weithredol yn dal i weithio yn optimaidd ac rwy'n parhau i bryderu am absenoldeb parhaus cynllun gwasanaethau clinigol.

Mae cyflawni'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn mynd i fod yn hanfodol wrth sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen yn y model gweithredu ac atebolwydd cysylltiedig. Fodd bynnag, mae amserlenni gweithredu yn heriol a bydd angen perchnogaeth weithredol a chefnogaeth ehangach y staff.

Er gwaethaf goruchwyliaeth ariannol gryfach, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £17.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae fy ngwaith hefyd wedi nodi'r angen i sicrhau cytundebau atebolwydd mwy amserol i ddeiliaid y gyllideb a'u bod yn glynu wrth y rheini.

Mae heriau darparu gwasanaethau sylweddol yn parhau i fodoli yn enwedig mewn gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, a fydd angen sylw parhaus a brys er mwyn mynd i'r afael â nhw.



Gwnaeth fy nhîm archwilio sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar gryfhau arweinyddiaeth a rhai agweddau ar lywodraethu gweithredol. Ymhlith themâu'r argymhellion ehangach roedd cryfhau cynllunio a newidiadau gwasanaethau cysylltiedig a monitro cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn well.



Mae rhywfaint o waith ar ôl o fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025. Mae fy nhîm yn disgwyl cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd haf 2026.

Canfyddiadau archwilio cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ynghylch pa un a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi golwg cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), sydd ar gael ar [wefan Archwilio Cymru](#).

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 2 Mai 2025 sef y terfyn amser a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn foddhaol yn gyffredinol.

Fy marn archwilio

Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nodais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Mehefin 2025.

Cywir a theg

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft sy'n deillio o fy ngwaith archwilio.

Roedd camddatganiadau heb eu cywiro yn dilyn yr archwiliad a oedd yno oherwydd tystiolaeth annigonol yn cefnogi ychwanegiadau cyfalaf a gofnodwyd ym mis Mawrth 2025. O ganlyniad, roedd gorddatganiad gwerth £3.54 miliwn yn yr 'Asedau Dan Adeiladwaith' (AUC), roedd tanddatganiad gwerth £2.41 miliwn yn y 'Rhagdaliadau eraill', a gorddatganiad gwerth £1.14 miliwn yn y 'Symiau Cyfalaf Taladwy'. Ar ddiwedd ein gwaith, roedd ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r ychwanegiadau a gydnabyddir yn y cyfrifon, gyda balans o £17.01 miliwn yn parhau heb ei brofi. O'i gyfuno â chyfanswm y gwallau a nodwyd, yr uchafswm o ran camddatganiad posibl oedd £20.55 miliwn. Roedd hwn â gwerth is na'r trothwy perthnasedd archwilio, ac, felly, roeddwn yn gallu

dod i'r casgliad nad oedd y cyfrifon wedi'u camddatgan yn berthnasol ar gyfer y mater hwn. Cafodd y tanwariant yn y Dyraniad Adnoddau Cyfalaf yn Nodyn 2.2 ei danddatgan hefyd gyda swm cyfatebol.

Fe adroddais am y materion sylweddol canlynol:

- Trefniadau llywodraethu penodiadau uwch-swyddogion - nododd gwaith archwilio ar draws 2022-23 i 2024-25 wendidau mewn llywodraethu yn ymwneud â phenodiadau uwch-swyddogion, gan gynnwys anghysondeb contract yn 2024-25 ar gyfer y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, lle nad oedd telerau cyflog cytundebol yn cyd-fynd â chymeradwyaethau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen am reolaethau a goruchwyliaeth gryfach wrth baratoi ac adolygu contractau staff uwch.
- Cofnodi datganiadau buddiannau – tanseiliwyd proses datganiadau buddiant 2024-25 gan ddulliau cyflwyno anghyson, llofnodion a dyddiadau coll, staff Llywodraethiant Corfforaethol yn cwblhau ffurflenni ar ran Aelodau'r Bwrdd, anghysondebau rhwng datganiadau a gyflwynwyd â'r rhai a gyhoeddwyd, a nifer sylweddol o ddatganiadau o fuddiant neu ddatganiadau o fuddiant a oedd yn wrthdrawiadol, ac roedd angen gwirio a chywiro ychwanegol ar bob un ohonynt.

Fe adroddais am faterion eraill fel a ganlyn:

- Gwirio a rhoi tystiolaeth bod cyfarpar cyfalaf wedi'i dderbyn – roedd y Bwrdd Iechyd yn cael trafferth wrth ddangos tystiolaeth ei fod wedi derbyn offer cyfalaf, yn aml roedd angen iddo gysylltu â chyflenwyr yn ystod yr archwiliad, ac nid oedd yn gallu cadarnhau £3.54 miliwn o ychwanegiadau ym mis Mawrth 2025, gyda £17.01 miliwn arall yn parhau heb ei brofi. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau prosesau cadw dogfennaeth a thystiolaeth ar gyfer prynu offer.
- Amseriad Prosiectau Cyfalaf a Gwariant – cydnabuwyd tua £31 miliwn (60%) o wariant cyfalaf ym mis Mawrth 2025, ac roedd angen profion archwilio ychwanegol sylweddol i wirio'r terfyn ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar dimau archwilio a chyllid, yn enwedig o ystyried y diffyg ehangach o ddogfennaeth

ategol ar gyfer nwyddau a dderbyniwyd, gan arwain at oedi a mwy o waith archwilio.

- Cyfnodolion fferylliaeth – canfu adolygiad o wariant fferylliaeth 2024–25 nifer o gofnodion yn y dyddlyfrau a oedd yn gymhleth ac a ddefnyddiwyd i ddyrannu costau ac addasu cronïadau blaenorol. Gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu proses gymeradwyo dyddlyfrau ffurfiol, roedd risg uwch y gallai gwallau neu gamddatganiadau ddigwydd a pharhau heb eu canfod.
- Cydymffurfio â Chanllawiau Penodi Dros Dro – roedd canllawiau GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024 yn gofyn am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob penodiad uwchswyddog dros dro. Ni chafodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth ar gyfer rhoi estyniad o fis i benodiad y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro, gan dynnu sylw at yr angen i gryfhau rheolaethau mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion llywodraethu sy'n datblygu.
- Cyllidebau cyfunol llety cartrefi gofal – torrodd y Bwrdd Iechyd Reoliad 19(1)(a) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 a'i gytundeb partneriaeth ei hun drwy fethu â gwneud unrhyw daliadau i Gyllideb Gyfun ar gyfer Llety i Bobl Hŷn Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu nad oedd y gronfa gyfun yn weithredol yn ôl yr angen.

Fe wnes i ddod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir gan gyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt.

Rheoleidd-dra

Caniateir i'r Bwrdd Iechyd dderbyn incwm a chyflawni gwariant mewn ffyrdd sy'n dilyn y rheolau a osodwyd gan yr awdurdodau sy'n ei lywodraethu yn unig.

Hefyd, pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra.

Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd gydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, yr wyf yn credu ei fod y tu allan i'w bwerau i wario, felly cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2024-25 y Bwrdd Iechyd. Ni reolodd y Bwrdd Iechyd ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau dros y

cyfnod o dair blynedd 2022-23 i 2024-25, gan fynd £31.5 miliwn dros ei derfyn adnoddau refeniw cronol o £6,483 miliwn.

Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni cydbwysedd ariannol a'r methiant i gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

Cyfrifon Llywodraeth Gyfan

Fe wnes i hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Fe wnes i ddod i'r casgliad bod gwybodaeth y parti i gontract wedi'i grynhoi yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2025 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

Canfyddiadau archwilio perfformiad

Asesiad strwythuredig

Edrychodd fy nhîm ar ba mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lywodraethu ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Canfûm fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol gyda thrafodaeth agored a her effeithiol. Fodd bynnag, mae trefniadau arweinyddiaeth weithredol yn achosi rhywfaint o bryder. Er bod Tîm Gweithredol o sylwedd ar waith i raddau helaeth, mae'r Prif Weithredwr yn dal i gael ei dynnu'n ormodol i mewn i faterion gweithredol ac arweinyddiaeth rhaglen benodol. Mae angen sicrhau bod portffolios gweithredol yn cefnogi mwy o arweinyddiaeth sefydliadol ar y cyd gan y Tîm Gweithredol yn hytrach na bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi ar ychydig o unigolion yn unig.

Cydnabyddir nad yw model gweithredu presennol y Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben. Mae angen atebolrwydd llawer cryfach a chliriach am berfformiad o ystyried yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'r rhaglen Sylfeini ar Gyfer y Dyfodol sydd â'r bwriad o gyflwyno model gweithredu newydd yn fenter angenrheidiol ac yn briodol o ran bod yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae ei gweithredu yn cymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae'r dyddiad gweithredu diwygiedig ym mis Ebrill 2026 yn edrych yn heriol iawn o ystyried mai gwybodaeth gyfyngedig a lefel uchel am y model sydd wedi'i rhannu gyda'r Bwrdd. Bydd y model hefyd yn gofyn am ymarfer ymgynghori mewnol helaeth cyn y gellir ei gyflwyno.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar gyflawni ei ofynion ariannol statudol. Mae'n galonogol ei fod wedi gallu cyflwyno cynllun tymor canolig sy'n gytbwys yn ariannol, er nad oedd modd cymeradwyo'r cynllun oherwydd diffyg manylion ar ddulliau cyflawni. Mae angen rhoi sylw ar gynaliadwyedd ariannol tymor hwy o hyd, er bod hyn yn cael ei rwystro gan absenoldeb parhaus cynllun gwasanaethau clinigol.

Mae goruchwyliaeth dda o berfformiad ariannol, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £17.4 miliwn o fis deg. Mae hefyd yn bryder sylweddol fod nifer o gytundebau atebolrwydd ar gyfer 2025-26

wedi'u llofnodi yn hwyr iawn ym mlwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys gan sawl deiliad cyllideb yn y Tîm Gweithredol

Fe wnes i naw argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd o fewn y meysydd canlynol:

- cynyddu tryloywder o fewn busnes y bwrdd;
- cryfhau llinellau sicrwydd i bwyllgorau y bwrdd;
- cryfhau gwytnwch o fewn y Tîm Gweithredol;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol yn cael eu deall yn dda, wedi'u mynegi'n glir ac wedi'u cytuno;
- sicrhau digon o allu rheoli rhaglenni ar gyfer adolygu ei strwythurau gweithredu.

Rheoli Gofal wedi'i Gynllunio

Edrychodd fy nhîm ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'i heriau gofal wedi'i gynllunio a lleihau ôl-groniad ei restr aros.

Canfûm er gwaethaf rhai gwelliannau, bod nifer sylweddol o gleifion yn aros am amser hir o hyd sy'n dangos bod angen gweithredu parhaus pellach gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen i wella effeithlonrwydd gwasanaethau, datblygu gwelliannau gofal wedi'i gynllunio'n gynaliadwy i ateb y galw cynyddol, a chryfhau adrodd am niwed sy'n deillio o oedi mewn triniaeth ddewisol.

Fe wnes i chwe argymhelliad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gwell dealltwriaeth a rhagweld gallu a galw;
- cynllunio gwasanaethau i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol;
- cryfhau llywodraethu rhaglenni;
- cryfhau arweinyddiaeth glinigol yn y rhaglen gofal wedi'i gynllunio;
- sicrhau bod risgiau gofal wedi'i gynllunio yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- monitro'r effaith y mae cyllid ychwanegol ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio yn ei chael.

Rheoli galw brys ac argyfwng

Edrychodd fy nhîm i weld pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system.

Canfûm, er bod cynlluniau ar gyfer rheoli galw am ofal brys ac argyfwng yn parhau i ddatblygu, mae perfformiad yn parhau i fod yn hynod heriol ac mae angen cryfhau trefniadau ar gyfer rheoli risgiau, gan ddangos y defnydd o gyllid ychwanegol ac ymgysylltu â chleifion a staff.

Fe wnes i 15 o argymhellion sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- cynllunio;
- gwneud y mwyaf o wybodaeth am wasanaethau brys ac argyfwng y tu allan i'r Adran Achosion Brys;
- monitro cyllid ychwanegol.

Mae gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

Ar adeg yr adroddiad, roedd yr adolygiadau canlynol o Gynllun Archwilio 2025 yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd:

- adolygiad dilynol o ansawdd llywodraethu;
- adolygiad o'r defnydd o ddyraniad ariannol strategol Llywodraeth Cymru 2020-26;
- adolygiad o drawsnewid digidol;
- adolygiad o reoli ystadau;
- adolygiad o wasanaethau canser.

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).




Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Dysgu a datblygu
- Moeseg
- Arweinyddiaeth
- Canllawiau
- Cymorth technelogol
- Diwylliant



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Adolygiadau â thema
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Adolygiadau oer
- Monitro allanol
- Dadansoddiad o wraidd y problem

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o wybodaeth arall i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

Ewch i'n gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

